

# amserbeibl

## Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran \_\_\_\_\_ Dyddiad geni \_\_\_\_\_

Enw \_\_\_\_\_

Cyfeiriad \_\_\_\_\_

Enw Arweinydd y Dosbarth \_\_\_\_\_



### Gwersi Beiblaidd o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH  
Genesis 12: 1-9



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Hebraid 11: 8

## Gwers 1 Teithiau Abraham – Ymddiried yn Nuw

Gall symud tŷ fod yn gyffrous! Cartref newydd, ysgol newydd, ffrindiau newydd ac ardal newydd. Ond mae clirio un tŷ, rhoi trefn ar bopeth, a setlo mewn lle newydd yn newid mawr!

Roedd rhaid i Abram (a gafodd ei alw'n Abraham yn ddiweddarach) symud i fyw hefyd. Fe adawodd ddinas fawr Ur a symud i Haran. Roedd wedi bod yn hapus a chysurus iawn yn Ur gyda'i deulu, ond roedd gan Dduw gynlluniau eraill ar ei gyfer. Un diwrnod, siaradodd Duw ag ef a dechrau egluro'i gynlluniau iddo.

### C Ysgrifennwch beth ddywedodd Duw wrth Abram am ei adael (Darllenwch adnod 1)


1

2

3

### C Rhowch gylch ar y map i ddangos y wlad y daeth iddi.


Pan fyddwn ni'n symud tŷ, rydyn ni'n gwybod lle fydd ein tŷ newydd, ond yn adnod 1 o'r Darlleniad o'r Beibl fe sylwch chi nad oedd Abram yn gwybod i ble'r oedd yn mynd. Roedd ar Dduw eisiau i Abram ymddiried ynddo wrth iddo ddangos y ffordd i wlad arall iddo.



Mae ymddiried (neu trystio) yn air pwysig iawn yn y Beibl, ond beth yw ei ystyr?

**Mae ymddiried yn Nuw yn golygu ei gymryd ar ei air a bod yn ufudd iddo.**

**C** Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir ynteu'n anghywir:-



Gwrandawodd Abram ar Dduw ond ni fu'n ufudd iddo .....  
 Gwnaeth Abram yn union fel y mynnai .....  
 Dilynodd Abram orchmynion Duw .....

3

**C** Llanwch y bylchau yn y frawddeg isod.

Gwnaeth Duw addewidion arbennig i Abram. Byddai teulu Abram yn tyfu mor fawr nes y byddai'n dod yn g\_ \_ \_ \_ \_ . Byddai Abram ei hun yn dod yn berson pwysig iawn a byddai ei \_ \_ \_ yn cael ei fawrygu. Yn wir, roedd pethau da'n mynd i ddigwydd i bawb ar y dd\_ \_ \_ \_ oherwydd Abram.

Mae'n siwr bod Abram wedi ei chael yn anodd deall yr addewidion hyn oherwydd, ar y pryd, nid oedd ganddo blant o gwbl. Ond er nad oedd yn deall yr addewidion yn iawn, nac yn gwybod i ble'r oedd yn mynd, roedd yn barod i ymddiried yn Nuw.

3

**C** Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.



2

1

**C** Rhowch gylch am oed Abram pan adawodd Haran.

45      65      75      90


**C** Darllenwch adnod 5 ac ysgrifennwch enwau'r bobl a aeth gydag Abram wrth ochr y lluniau.




2

**C** Llanwch y bylchau i ddweud beth a ddigwyddodd pan gyrhaeddodd nhw Ganaan (adnodau 6-8).

Dyweddodd Duw:




Adeiladodd Abram

\_\_\_\_\_ i ddiolch i Dduw.



Roedd Abram yn byw mewn

\_\_\_\_\_.



3

Mae'n sicr bod Abram wrth ei fodd yn clywed addewidion Duw eto a'i fod wrth ei fodd hefyd o wybod bod Duw wedi'i arwain i'r wlad hon, a fyddai'n eiddo i'w bobl ryw ddydd. Daliodd ati i ymddiried yn Nuw ac i ddibynnu ar yr hyn a ddywedai. Yn yr un ffordd, mae gan Dduw gynllun arbennig ar gyfer bywyd pob un ohonon ni. Fe ddown i wybod beth yw'r cynllun hwnnw wrth i ni glywed Duw yn siarad â ni trwy ei Air, y Beibl.

2

**C** Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir.

Rhaid i ni fod yn barod i DDUHFUAU \_\_\_\_\_ i orchmynion Duw i ni, ac i IRMDEDDYI \_\_\_\_\_ ynddo Ef am bopeth yn ein bywydau.



DARLLENWCH  
Genesis 13: 1-18



## Gwers 2 Teithiau Abraham – Dewisiadau

Pe bai ewythr neu fodryb yn rhoi arian i chi i'w wario, a chithau'n mynd i'r siop felysion, fe welech chi bob math o felysion yno. Sut byddech chi'n gwario'ch arian? Fe fyddai'n rhaid i chi wneud dewis! Roedd rhaid i Abram a Lot wneud dewisiadau pwysig - dewis pa ffordd y bydden nhw'n mynd weddill eu bywyd. Wrth i Abram a Lot ddal i deithio yng Nghanaan, fe ddaeth y ddau yn gyfoethog iawn.



ADNODAU  
ALLWEDDOL  
Diarhebion 3: 5 a 6

### C Ysgrifennwch wrth ochr bob llun beth oedd ganddyn nhw.



2

Daeth hi'n amlywg yn fuan y byddai'n anodd iddyn nhw gael digon o borfa a dŵr ar gyfer yr holl anifeiliaid oedd ganddyn nhw, ac fe ddechreuodd gweision Abram a Lot gweryla. Roedd Abram yn drist iawn pan glywodd am y cweryla. Roedd yn gwybod y byddai Duw yn drist hefyd. Byddai'n llawer gwell iddo ef a Lot wahanu.

### C Ysgrifennwch y geiriau yn adnod 9 sy'n dweud bod Abram wedi gadael i Lot ddewis lle i fynd.

1

### C Ysgrifennwch yr atebion i'r cliwiau isod, yna rhwch gylch am yr atebion yn y Pos Geiriau. Maen nhw wedi'u cuddio i bob cyfeiriad.

1. Gadawodd y dyn hwn yr Aiff. .... (adn1)
2. Roedd pobl y ddinas hon yn ddrwg ..... (adn 13)
3. Roedd y ddinas hon yn agos i Sodom. .... (adn 10)
4. Teithiodd Lot i'r cyfeiriad hwn ..... (adn 11)
5. Aeth y dyn hwn gydag Abram ..... (adn 5)
6. Galwodd Abram ar enw'r ..... (adn 4)
7. Gwelodd Lot y gwastadedd hwn. .... (adn 10)

W	E	R	D	D	H	O	G
I	C	O	Y	A	R	O	
O	A	S	W	C	E	M	
R	T	O	L	E	T	O	
D	D	R	D	G	H	A	R
O	T	O	R	E	O	R	
N	E	M	A	R	B	A	
E	N	D	A	E	R	T	
N	I	A	R	Y	W	D	

7

Dewisodd Lot y lle gorau yn ei farn ef. Ond dewis gwael oedd ei ddewis yn y pen draw.

**C** Rhowch gylch am bob gair sy'n disgrifio'r bobl oedd yn byw yn Sodom.

Drwg    Da    Pechadurus    Caredig    Aflan

Roedd Lot mewn perygl mawr o gael ei arwain i drwbwl gan y bobl hyn. Doedd dim rhaid i Abram boeni am gael ei adael gyda'r tir ail orau. Cyn gynted ag y gadawodd Lot, siaradodd Duw ag Abram eto ac addo rhywbeth llawer gwell iddo.

3

**C** Tanlinellwch y gair cywir yn y frawddeg:

Dywedodd Duw wrth Abram am edrych i bob cyfeiriad, ac addawodd y byddai

**ychydig    dim    hanner    y cyfan**

o'r tir y gallai ei weld yn dod yn eiddo i'w deulu.

Rhaid i ni hefyd wneud dewisiadau. Mae rhai'n ddewisiadau dibwys, mae eraill yn bwysig. Weithiau maen nhw'n rhai cywir, dro arail yn rhai anghywlr.

1

**C** Rhowch linell drwy'r dewisiadau anghywir isod:

Bod yn ufudd i'n rhieni. / Gwneud fel y mynnwn ni.  
Taro rhywun sy'n gas i ni. / Maddau iddyn nhw.

Mae'r dewis mwyaf y gallwn ni ei wneud yn ymwneud â'r Arglwydd Iesu.

2

**C** Rhowch ✓ a X yn y blychau i ddangos pa un yw'r dewis cywir.



Dweud 'Na wna' wrth Iesu a mynnu eich ffordd bechadurus eich hunan.

Dweud 'Gwnaf' wrth Iesu a'i ddewis yn Waredwr, yn Arglwydd ac yn Arweinydd.

2

Mae'n rhaid i bob un wneud y dewis, ac ni ddylen ni fod fel Lot yn gwneud y dewis anghywir. Dewisodd Abram ymddiried yn Nuw a chafodd ei fendithio gan Dduw. Mor bwysig yw gwneud y dewis iawn! Ydych chi wedi gwneud y dewis pwysicaf o bob un ac wedi gofyn i'r Arglwydd Iesu ddod i'ch bywyd chi i fod yn Waredwr, yn Arglwydd ac yn Arweinydd i chi?

**C** Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol sy'n dweud wrthym pa mor bwysig yw gwneud y dewis cywir.


2




DARLLENWCH  
Genesis 17: 1-8  
18: 1-15, 21: 1-5



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Mathew 1: 21

### Gwers 3 Teithiau Abraham – Addewidion Duw

Roedd Ben wedi cael addewid y byddai'n cael beic newydd yn anrheg Nadolig. Ond roedd y Nadolig ymhell i ffwrdd! Weithiau roedd Ben yn meddwl tybed a fyddai ei rieni'n cadw'u haddewid, ynteu a fydden nhw'n rhoi rhywbeth arall iddo. Yn araf bach, aeth yr wythnosau a'r misoedd heibio... ac o'r diwedd daeth y Nadolig. Roedd Ben wedi cynhyrfu'n lân, prin y gallai ddisgwyl!. Roedd wrth ei fodd pan welodd y beic newydd sbon danlli, yn union fel yr oedd wedi gobeithio ei gael! Roedd ei rieni wedi cadw'u haddewid!



**C** Ysgrifennwch rywbeth y cawsoch chi addewid amdano.

Roedd Duw wedi addo teulu mawr i Abram. Un diwrnod fe addawodd Duw hyn eto iddo, ac ar yr un pryd fe newidiodd ei enw.

**C** Ysgrifennwch lythyren gyntaf pob un o'r pethau isod i gael gweld enw newydd Abram.




Roedd enw newydd Abram i fod i'w atgoffa'n barhaus o addewid Duw iddo.

**C** Ysgrifennwch beth mae Genesis 17: 5 yn ei ddweud wrthyn ni am ystyr ei enw newydd.

Aeth blynyddoedd heibio. Erbyn hyn, roedd Abraham yn 99 oed ond doedd dim plant ganddo ef a Sara. Mae'n siwr bod Abraham wedi dechrau credu na fyddai Duw byth yn cadw'i addewid. Yna, un diwrnod, daeth yr addewid yn gliriach nag erioed iddo.

**C** Rhowch y digwyddiadau hyn yn y drefn gywir trwy roi'r rhifau 1-5 yn y blychau.

- Gwelodd Abraham dri dyn.
- Cynigiodd Abraham ddŵr a gorffwys i'r tri dyn.
- Trefnodd Abraham bryd o fwyd i'r dynion.
- Roedd Abraham yn eistedd wrth ddrws ei babbell.
- Brysiodd Abraham i gyfarfod â'r dynion



1

2

5

Daeth y tri ymwelydd â neges oddi wrth Dduw i Abraham.

- C** Darllenwch bennod 18, adnod 10 ac ysgrifennu beth ddywedon nhw fyddai'n digwydd ymhen blwyddyn.

1

- C** Pam roedd Sara'n chwerthin pan glywodd hi hyn? Ticiwch yr ateb cywir.

- Am ei bod hi mor hapus.  
 Am ei bod hi'n meddwl ei fod yn amhosibl.



1

- C** Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir i gael enw'r babi.

CSAIA \_ \_ \_ \_ \_

- C** Pa ddwy adnod o'r trydydd Darlleniad o'r Beibl sy'n dweud bod Duw wedi cadw'i addewid?

Genesis pennod 21, adnodau  a



2

- C** Rhowch gylch am oedran Abraham pan gafodd y baban ei eni.

99 100 80 101 82 96 125

Er bod Abraham wedi gorfod disgwyl am flynyddoedd, ni thorodd Duw ei addewid. Yn y diwedd, daeth yr addewid yn wir, yn union fel y dywedodd Duw y byddai pethau'n digwydd. Mae Gair Duw yn llawn addewidion, yn cynnwys y rhai a wnaeth am blentyn arall a fyddai'n cael ei eni.

- C** Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.  
Dyma un o'r addewidion mwyaf a wnaeth Duw erioed!


1

- C** Ceisiwch ddatrys y cod i weld sut y digwyddodd hyn.

(a = 1, b = 2, c = 3, ch = 4, d = 5, dd = 6, ac yn y blaen)

18 17 5    1 21    28 21    26 17 13 18 17    1 5 7 10    21 18 7 6  
5 26 27    27 7 5 13    7 13    6 7 27 13 23,    1 17 8 18 17 18 6    7 13  
    .         adnod     
8 1 2. 10 1 14 1 24 13 1 13 5    ch adnod ch

5

Mae'r adnod yn y cod yn dangos i ni unwaith eto bod Duw wedi cadw'i addewid ynglŷn ag anfon Gwaredwr i ni. Mor ddiolchgar y dylen ni fod am i Iesu Grist gael ei eni a dod i'n gwaredu ni oddi wrth ein pechodau. Peidiwch â gadael i ni anghofio bod Duw bob amser yn cadw'r addewidion y mae'n eu gwneud. Fe allwn ni bob amser ymddiried yn ei Air.



DARLLENWCH  
Genesis 22: 1-14




ADNOD  
ALLWEDDOL  
Ioan 1: 29

## Gwers 4 Teithiau Abraham – Prawf o Gariad

Trwy gydol ein bywyd, rydyn ni i gyd yn gorfod wynebu gwahanoi brofion.

### C Pa fath o brofion sydd yn y lluniau isod?

PRAWF	
Cadair	✓
Anifial	×
Dafed	×
Llinell	✓
Ccniogau	✓
3 / 5	



Prawf \_\_\_\_\_ .

Prawf \_\_\_\_\_ .

Prawf \_\_\_\_\_ .

Mae'n sicr bod Abraham yn dad balch iawn wrth iddo weld ei fab Isaac yn tyfu. Roedd Duw wedi bod yn dda wrth Abraham a Sara. Roedd wedi cadw'i addewid ac wedi rhoi llawenydd mawr iddyn nhw yn eu henaint. Roedd Abraham yn caru Isaac yn fawr iawn, ond a oedd yn caru Duw gymaint? Gadewch i ni chwilio am yr ateb!

Penderfynodd Duw y byddai'n rhoi prawf ar gariad Abraham tuag ato. Roedd y prawf yn mynd i fod yn un caled iawn.

### C Llanwch y bylchau i gael gwybod beth oedd y prawf.

Gofynnodd Duw i Abraham fynd ag \_\_\_\_\_

i wlad M \_\_\_\_\_ a'i offrymu'm aberth

ar un o'r m \_\_\_\_\_ yno.



Roedd Abraham wedi ufuddhau i Dduw lawer gwaith cyn hyn, ac er bod hwn yn ymddangos yn beth od iawn i'w wneud, byddai Abraham yn ufudd i Dduw y tro hwn eto, am ei fod yn ofni Duw.

Nid yw ofni Duw yn golygu bod arnon ni ofn Duw, ond mae'n golygu ei garu, ufuddhau iddo a'i barchu, am ei fod yn Dduw Hollalluog. Roedd Abraham yn siwr na fyddai Duw yn ei siomi.

### C Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir ynteu'n anghywir.

1. Teithiodd Abraham ar gefn camel. ....

2. Aeth pedwar o bobl ar y daith. ....

3. Ar y trydydd diwrnod, cafodd y gweision eu gadael ar ôl. ....

Wrth i Abraham fynd yn ei flaen ar y daith, gwyddai y byddai popeth yn gweithio allan yn iawn a hynny mewn rhyw ffordd ryfeddol, hyd yn oed pe bai Duw yn gorfod atgyfodi Isaac! Roedd Abraham yn credu addewid Duw mai trwy Isaac y byddai holl genhedloedd y ddaear yn cael eu bendithio.

3

3

3

**C** Pwy oedd yn cario beth? Tynnwch saethau i gysylltu'r pethau a'r bobl.



Abraham

cylllell    coed    tân



Isaac

3

**C** Ysgrifennwch y cwestiwn a ofynnodd Isaac a'r ateb a roddodd Abraham wrth iddyn nhw ddringo'r mynydd.

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

2

**C** Llanwch y bylchau:

Ar ôl cyrraedd, adeiladodd Abraham \_\_\_\_\_ a rhoi Isaac arni. Gwnaeth Isaac fel y dywedodd Abraham wrtho. Fel yr oedd Abraham ar fin defnyddio'r \_\_\_\_\_, torrodd \_\_\_\_\_ ar ei draws. Roedd Abraham wedi profi, trwy fod yn ufudd, ei fod yn caru Duw fwy na neb arall. Cafodd \_\_\_\_\_ ei aberthu yn lle Isaac.

4

**C** Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol sy'n disgrifio'r aberth fwyaf a wnaed erioed.

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

2

Mae'n bwysig bod gennym ni'r un math o ffydd yn Nuw ag oedd gan Abraham. Fe wnaeth Duw aberthu ei unig Fab, i gymryd ein pechodau ni, ac yna cododd ef yn fyw eto. **"... bod y Meseia wedi marw dros ein pechodau ni, fel mae'r ysgrifau sanctaidd yn dweud. Yna ei fod wedi ei gladdu, a'i fod wedi ei godi yn ôl yn fyw ddeuddydd wedyn, fel mae'r ysgrifau'n dweud."** I Corinthiaid 15: 3 & 4

Ydych chi'n credu hyn? Pan fu Iesu farw ar y groes, roedd yn fodlon bod yn aberth droson ni. Doedd neb arall a allai fod wedi cymryd ei le. Duw oedd wedi'i ddarparu ar ein cyfer ni. Dylennau ymddiried yn llwyr yn Nuw, fel y gwnaeth Abraham, a diolch iddo am ddarparu ei Fab er mwyn i ni gael maddeuant.

**cyfanswm**

Marciau  
(i'w nodi gan yr arweinydd)

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.  
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar [www.biblelinkit.com](http://www.biblelinkit.com) neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.  
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynnyr Roberts.  
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o [www.amserbeibl.org](http://www.amserbeibl.org)  
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:  
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwillog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120